



Darpariaethau Rheoli Rhywogaethau

Ymgynghoriad ar God Ymarfer i Gymru

Ionawr 2016

Cynnwys

Cynnwys	3
1 Cyflwyniad	5
2 Crynodeb o ddarpariaethau rheoli rhywogaethau	7
2.1 Penderfynu ar gyfrifoldeb cydgysylltiedig.....	7
2.2 Y broses bresennol.....	7
2.3 Sut byddwn ni'n cyflwyno'r darpariaethau hyn	8
2.4 Hyd a lled y mesurau	8
2.4.1 Rhywogaethau sy'n cytrefu'n naturiol	9
2.4.2 Anifeiliaid wedi'u hailgyflwyno nad ydynt yn naturiol-bresennol ym Mhrydain fel arfer mwyach	9
2.4.3 Rhywogaethau o ddiddordeb i'r Gymuned Ewropeaidd	10
2.4.4 Y prawf effaith andwyol ddifrifol	10
2.4.5 Gwasgariad rhywogaethau estron	10
2.4.6 Safle	12
2.5 Ystyriaethau lles anifeiliaid	12
2.6 Diogelu rhywogaethau di-darged	12
2.7 Adolygiad o ddarpariaethau rheoli rhywogaethau.....	12
2.8 Cyhoeddi nifer y cytundebau a gorchmynion	12
3 Cytundebau rheoli rhywogaethau	14
3.1 Beth yw cytundeb rheoli rhywogaethau?	14
3.2 Pwy all ymrwymo i gytundeb rheoli rhywogaethau?	14
3.3 Pryd ddylai awdurdod amgylcheddol gynnig ymrwymo i gytundeb rheoli rhywogaethau?.....	14
3.3.1 Rhywogaethau cynhenid a arferai breswyllo yma.....	16
3.4 Beth mae'n rhaid i gytundeb rheoli rhywogaethau ei gynnwys	17

3.5	Terfynu cytundeb	17
4	Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau	18
4.1	Pan fydd awdurdod amgylcheddol yn gwneud gorchymyn rheoli rhywogaethau ..	18
4.1.1	Dim perchennog hysbys	19
4.2	Beth ddylai gorchymyn rheoli rhywogaethau gynnwys	19
4.3	Gofynion hysbysu	20
4.4	Pan ddaw'r gorchymyn i rym.....	20
4.5	Gorchmynion rheoli rhywogaethau brys	20
4.6	Dirymu	22
4.7	Terfynu gorchymyn	22
5	Pwerau mynediad, gorfodi, troseddau a chosbau.....	23
5.1	Pwerau Mynediad	23
5.2	Gorfodi.....	24
5.3	Troseddau a chosbau	25
6	Cyfrifoldeb am gostau ac iawndal	26
6.1	Cyfrifoldeb am gostau gwaith rheoli rhywogaethau	26
6.2	Iawndal	26
6.3	Anghydfod	27
7	Hawl i apelio	28
	Rhan I – Rhywogaethau estron	29
	Rhywogaethau cynhenid	30
	Rhywogaethau cynhenid a arferai breswyllo yno.....	31
	Planhigion – Rhywogaethau estron	31

1 Cyflwyniad

- 1 Mae'r cod ymarfer hwn yn nodi sut y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gymhwyso'r darpariaethau ar gytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981¹. Dim ond i Gymru y mae'r cod hwn yn berthnasol. Mae DEFRA, neu Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig wedi cyhoeddi cod ymarfer ar wahân ar gyfer Lloegr.
- 2 Mae mwy a mwy o rywogaethau'n cael eu cludo, naill ai'n fwriadol neu'n anfwriadol, y tu hwnt i'w tiriogaeth naturiol gan bobl. Tra bod llawer o'r rhywogaethau estron hyn yn gallu bod yn fanteisiol, er enghraifft i'r sectorau amaethyddol, coedwigaeth, garddwriaeth, pysgodfeydd ac anifeiliaid anwes, mae canran fach ohonynt a elwir yn rhywogaethau estron goresgynnol yn gallu cael effaith negyddol. Rhywogaethau estron goresgynnol yw un o'r bygythiadau mwyaf i'n hamgylchedd. Maen nhw'n costio tua £2 biliwn y flwyddyn i economi'r DU ac mae rhai hyd yn oed yn peryglu'n hiechyd ni. Mae Llywodraeth Cymru'n cymryd y mater hwn o ddifrif, ac yn cydnabod ei bod hi'n well atal rhywogaethau estron goresgynnol rhag ymsefydlu yma yn y lle cyntaf na cheisio'u rheoli ar ôl iddyn fwrw gwreiddiau yma – sy'n aml yn ddrud iawn neu ddim yn opsiwn hyfyw mwyach.
- 3 I wneud hyn, mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru allu ymateb yn gyflym ar ôl darganfod bygythiad newydd. Mae cael mynediad i safle er mwyn rheoli rhywogaeth estron oresgynnol newydd sy'n achosi, neu'n debygol o achosi niwed, yn gallu bod yn hollbwysig. Fel arfer, rydym yn sicrhau hyn yn wirfoddol gan fod y rhan fwyaf o dirfeddianwyr yn hapus i ganiatáu mynediad i'w tir. Fodd bynnag, mae angen sicrhau bod hyn yn bosibl bob amser, hyd yn oed os na wyddom pwy yw'r perchennog dan sylw. Bydd y pwerau newydd hyn yn sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn gallu cael mynediad i'r tir a chael gwared ar rywogaeth estron oresgynnol cyn iddi gael y cyfle i ymsefydlu'n ehangach.
- 4 Gall achosion anghyfreithlon o ailgyflwyno² rhywogaethau a arferai fod yn rhai preswyl cynhenid hefyd, dan amgylchiadau penodol, gael cryn effeithiau negyddol ar fuddiannau amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd gan fod amgylchiadau wedi newid ers y tro diwethaf roedden nhw'n bresennol yng Nghymru. Hefyd, gallai

¹ Cyflwynwyd y mesurau hyn gan adran 23 o Ddeddf Seilwaith 2015, gan ddiwygio Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981.

² Rhywogaethau wedi'u hailgyflwyno heb drwydded, yn groes i Adran 14 o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981.

ailgyflwyno o'r fath gael effaith andwyol ar les anifeiliaid unigol sy'n cael eu rhyddhau i amgylchedd nad yw'n addas i'w hanghenion. Efallai y bydd angen i'r Llywodraeth weithredu er mwyn mynd i'r afael ag ailgyflwyniadau didrwydded dan yr amgylchiadau hyn. Bydd modd gwneud hyn trwy gytundeb fel arfer, ond mewn achosion prin, bydd angen defnyddio pwerau rheoli er mwyn cael mynediad i dir pan fydd popeth arall yn methu.

2 Crynodeb o ddarpariaethau rheoli rhywogaethau

- 5 Roedd Adran 23 o Ddeddf Seilwaith 2015 yn diwygio Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 trwy ychwanegu Atodlen 9A newydd er mwyn cyflwyno trefn statudol o gytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau er mwyn sicrhau bod tirfeddianwyr, dan amgylchiadau priodol, yn cymryd camau i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol a rhywogaethau cynhenid a arferai breswyllo yma³, neu ganiatáu i eraill fynd ar dir i gyflawni'r gwaith hwn, er mwyn eu hatal rhag ymsefydlu ac ymledu. Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdodau amgylcheddol sydd â'r pwerau i wneud cytundebau neu orchmynion rheoli rhywogaethau.

2.1 Penderfynu ar gyfrifoldeb cydgysylltiedig

- 6 Dylai'r awdurdodau amgylcheddol gyfeirio at y protocol ymateb cyflym cyfredol er mwyn penderfynu pwy ddylai gydgysylltu unrhyw gamau gweithredu a all fod yn ofynnol dan y darpariaethau hyn. Y corff cydgysylltu sy'n gyfrifol am gynnig cytundeb neu wneud gorchymyn.
- 7 Os yw awdurdod amgylcheddol eisoes yn cyllido camau gweithredu dan raglen ddileu sy'n bodoli'n barod, cyn i'r darpariaethau hyn ddod i rym, dylai'r awdurdod hwnnw barhau i fod yn gyfrifol am unrhyw fesurau ychwanegol sy'n ofynnol dan y darpariaethau hyn.

2.2 Y broses bresennol

- 8 Ar hyn o bryd, gall awdurdodau amgylcheddol wneud trefniadau gwirfoddol â pherchnogion i gael mynediad i'w safleoedd er mwyn rheoli rhywogaethau estron goresgynnol. Roedd y trefniadau anffurfiol hyn yn effeithiol yn y rhan fwyaf o achosion.
- 9 Os yw awdurdod amgylcheddol yn dymuno cael mynediad i safle, yna rhaid iddo geisio ymrwymo i gytundeb â'r perchennog yn gyntaf dan y dull anffurfiol cyfredol.

³ Y diffiniad o rywogaeth o'r categori hwn yn ôl Atodlen 9A o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yw "an animal that is no longer normally present in Great Britain". At ddibenion y cod hwn, cyfeirir at y categori hwn o rywogaeth fel "rhywogaeth estron a arferai breswyllo yma".

Mae cytundebau fel hyn yn debygol o fod yn llai beichus i'r perchennog a'r awdurdod amgylcheddol.

2.3 Sut byddwn ni'n cyflwyno'r darpariaethau hyn

- 10 Os nad yw awdurdod amgylcheddol wedi llwyddo i sicrhau cytundeb y perchennog o fewn amser rhesymol ar sail anffurfiol, yna gallai ystyried defnyddio'r darpariaethau statudol hyn. Prif bwyslais y darpariaethau statudol, fodd bynnag, yw trin a thrafod cytundebau gwirfoddol, lle bo'n ymarferol, a dylai'r awdurdod amgylcheddol wneud ymdrechion rhesymol yn y lle cyntaf i ymrwymo i gytundeb effeithiol gyda'r perchennog ar reoli rhywogaethau.
- 11 Os nad yw hyn yn bosib, fodd bynnag, mae gan yr awdurdod amgylcheddol bwerau i wneud gorchymyn rheoli rhywogaethau sy'n gofyn i berchennog gymryd camau yn erbyn rhywogaeth estron oresgynnol (a rhywogaethau estron a arferai breswyllo yma), neu ganiatáu i awdurdod amgylcheddol wneud hynny.

2.4 Hyd a lled y mesurau

- 12 Mae'r mesurau hyn yn cwmpasu unrhyw anifail nad yw ei gynefin naturiol yn cynnwys gwledydd Prydain (h.y. rhywogaethau estron) lle gellir dangos bod y rhywogaethau hyn naill ai'n oresgynnol, neu'n gallu bod felly. Mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i'r anifeiliaid estron sydd wedi dod yn breswilydd cyffredin ym Mhrydain ac sydd wedi'u rhestru yn Rhan 1 o Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
- 13 Gellir hefyd cymhwyso'r mesurau hyn i'r rhywogaethau planhigion estron sydd wedi'u rhestru yn Rhan 2 o Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
- 14 Mae hefyd yn cwmpasu anifeiliaid a ailgyflwynwyd yng Nghymru o fewn eu tiriogaeth naturiol ond nad ydynt yn bresennol yn y gwyllt mwyach, yn sgil camau gweithredu didrwydded gan bobl. Mae'n cynnwys anifeiliaid sydd wedi'u rhestru ar Ran 1B o Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
- 15 Nid yw'n berthnasol i'r nifer fach o rywogaethau cynhenid yn Rhan 1A o Atodlen 9, sydd wedi'u rhestru yno er mwyn sicrhau bod unrhyw achos o ryddhau i'r gwyllt yn cael ei wneud yn briodol.
- 16 Gellir cyflwyno'r darpariaethau hyn i amgylcheddau tir, dŵr croyw a morol.
- 17 Mae Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ar gael yn yr Atodiad, er gwybodaeth.

2.4.1 Rhywogaethau sy'n cytrefu'n naturiol

- 18 O bryd i'w gilydd, bydd rhywogaethau sy'n cyrraedd gwledydd Prydain yn naturiol wrth i'w cwmpas naturiol ehangu (e.e. yn sgil newid yn yr hinsawdd). Hefyd, mae'n bosib y gallai rhywogaethau cynhenid sydd wedi diflannu o Brydain ar hyn o bryd, ail-gytrefu'n naturiol o rannau eraill o'u tiriogaeth naturiol rywbryd yn y dyfodol. Mae'r holl rywogaethau hyn y tu allan i gwmpas y mesurau hyn gan y byddant yn cael eu hystyried yn rhywogaethau o fewn eu tiriogaeth naturiol.
- 19 Fodd bynnag, lle bo rhywogaeth yn cytrefu Prydain o ardal sydd y tu allan i'w thiriogaeth naturiol, byddai'n dal yn rhan o gwmpas y darpariaethau. Er enghraifft, pe bai cacynen Asiaidd yn cyrraedd Cymru'n naturiol o Ffrainc lle cafodd ei chyflwyno'n ddamweiniol gan rywun o Tsieina, byddai'n parhau o fewn cwmpas y darpariaethau hyn gan nad yw ei thiriogaeth naturiol yn cynnwys Ffrainc.

2.4.2 Anifeiliaid wedi'u hailgyflwyno nad ydynt yn naturiol-bresennol ym Mhrydain fel arfer mwyach

- 20 Mae anifeiliaid na fu'n bresennol ym Mhrydain ers cryn dipyn o amser (canrifoedd yn aml), fel y blaidd neu'r lyncs, yn wahanol i rywogaethau estron nad ydynt erioed wedi preswyllo ym Mhrydain ac eithrio o ganlyniad i ymyrraeth dyn. Fodd bynnag, mae'r broses o ryddhau rhywogaethau cynhenid a arferai breswyllo yma i'r gwyllt yn cael ei rheoleiddio er mwyn sicrhau nad oes unrhyw niwed amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd neu niwed i les yr unigolion eu hunain. Gall niwed neu ddifrod ddigwydd os, er enghraifft, yw lleoliad ailgyflwyno'r rhywogaeth yn anaddas neu os yw'r anifeiliaid yn cario clefyd neu barasitiaid niweidiol.
- 21 Mae ailgyflwyno'r rhywogaethau hyn yn gallu bod yn gam cadwraeth pwysig iawn, yn enwedig lle collwyd rhywogaethau yn sgil gweithred dyn (e.e. erlid, hela). Caniateir ailgyflwyno, felly, dan drwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru unwaith y rhoddwyd ystyriaeth ofalus i sicrhau bod rhywogaethau'n cael eu gollwng yn unol ag argymhellion rhyngwladol. Nid yw cwmpas y mesurau hyn, felly, yn berthnasol i unrhyw un o'r rhywogaethau unigol hynny sydd yn y lleoliad hwnnw yn sgil trwydded o'r fath.
- 22 Er hynny, os caiff rhywogaeth frodorol a arferai breswyllo yma ei hailgyflwyno i ardal ddidrwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yna mae'n bosibl y gellir defnyddio darpariaethau rheoli rhywogaethau ar gyfer yr unigolion hynny. Mae hyn yn cynnwys rhywogaeth a ryddhawyd dan drwydded mewn un lleoliad, ond sydd wedi'i thrawsleoli'n anghyfreithlon trwy ymyrraeth ddynol i leoliad arall. Wrth ddod â'r rhywogaethau hyn a gyflwynwyd yn anghyfreithlon dan gwmpas y darpariaethau, y nod yw mynd i'r afael ag amgylchiadau lle cawsant eu hailgyflwyno i ardal anaddas oherwydd effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd posibl, neu niwed i les yr anifeiliaid eu hunain.

2.4.3 Rhywogaethau o ddiddordeb i'r Gymuned Ewropeaidd

- 23 Mae Rhywogaethau o Ddiddordeb i'r Gymuned yn golygu rhywogaethau sydd naill ai wedi, neu a all fod wedi'u rhestru yn Atodiad II, IV a V i'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd⁴, ac mae'n rhaid i Aelod Wladwriaethau gymryd camau i'w diogelu. Mae Atodiad II yn rhestru'r rhywogaethau hynny lle mae angen dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) i'w gwarchod; mae Atodiad IV yn rhestru'r rhywogaethau sydd angen eu diogelu'n llym e.e. gwaharddiad ar ladd; ac Atodiad V yn rheoleiddio yn erbyn cymryd rhywogaethau penodol o'r gwyllt a cham-fanteisio arnynt.
- 24 Mae'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn caniatáu llacio'r rheolau ar ddiogelu dan amgylchiadau penodol, gan gynnwys am resymau diogelu iechyd y cyhoedd neu'r amgylchedd, sydd wedi'u trawsosod i ddeddfwriaeth genedlaethol trwy Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010⁵. Os yw awdurdod amgylcheddol yn cynnig gwneud cytundeb neu orchymyn rheoli rhywogaethau sy'n effeithio ar rywogaethau o ddiddordeb i'r Gymuned, yna rhaid iddo sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn unol â gofynion y Gyfarwydddeb Cynefinoedd a'i fod yn cael y drwydded briodol gan yr awdurdod trwyddedu yn gyntaf⁶.

2.4.4 Y prawf effaith andwyol ddifrifol

- 25 Mae cwmpas y mesurau hyn o ran rhywogaethau estron goresgynnol wedi'i gyfyngu gan brawf o p'un ai yw'r rhywogaeth yn debygol o gael effaith andwyol ddifrifol, os na chaiff ei rheoli, ar fioamrywiaeth; buddiannau amgylcheddol eraill; neu ar fuddiannau cymdeithasol neu economaidd. Wrth benderfynu a yw'r rhywogaethau'n bodloni'r prawf hwn, rhaid i'r awdurdod amgylcheddol ystyried y wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â'i heffeithiau tebygol, yn enwedig unrhyw asesiadau risg a gynhaliwyd gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain.
- 26 O ran y rhywogaethau estron a arferai breswyllo yma, rhaid i'r awdurdod amgylcheddol gael tystiolaeth bod yr anifeiliaid yn achosi effaith andwyol ddifrifol ar (i) fioamrywiaeth; (ii) buddiannau amgylcheddol eraill, neu (iii) buddiannau cymdeithasol neu economaidd cyn y gall ymrwymo i gytundeb rheoli rhywogaethau.

2.4.5 Gwasgariad rhywogaethau estron

- 27 Dylai'r darpariaethau hyn gael eu defnyddio'n bennaf i ddileu rhywogaethau estron goresgynnol sydd naill ai newydd gyrraedd, neu rywogaethau gweddol gyfyngedig eu gwasgariad ond sydd â'r potensial i ledaenu'n llawer ehangach. Yn gyffredinol,

⁴ Cyfarwydddeb 92/43/EEC ar warchod cynefinoedd naturiol a phlanhigion ac anifeiliaid.

⁵ O.S. 2010/490.

⁶ Rheoliad 53 o Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010

ni fyddai ceisio defnyddio'r darpariaethau hyn ar rywogaethau estron goresgynnol sydd eisoes wedi'u gwasgaru'n eang, yn ddefnydd priodol o'r pwerau hyn neu'n ddefnydd effeithiol o adnoddau. Efallai bod pwerau eraill yn fwy addas i fynd i'r afael â rhywogaethau estron goresgynnol sydd wedi'u gwasgaru'n eang, fel y rhai yn Neddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 sy'n caniatáu i awdurdod lleol neu'r heddlu wneud Hysbysiad Diogelu Cymunedol i fynd i'r afael â phroblemau neu niwsans parhaus sy'n cael effaith negyddol ar ansawdd bywyd y gymuned.

28 Dan rai amgylchiadau, er hynny, efallai y byddai cytundeb neu orchymyn rheoli rhywogaethau yn briodol ar gyfer rhywogaethau eang eu gwasgariad. Dyma'r amgylchiadau:

- Pan fydd awdurdod amgylcheddol yn cael gwared ar rywogaethau estron goresgynnol eang eu gwasgariad fel rhan o raglen ddileu;
- Lle mae rhywogaethau estron goresgynnol eang eu gwasgariad newydd gyrraedd ardal ddaearyddol ac mae rhaglen ddileu yn dal yn bosib;
- Lle mae rhywogaethau estron goresgynnol eang eu gwasgariad yn debygol o gael effaith andwyol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu safle Natura 2000.

Mae dail-ceiniog arnofiol yn blanhigyn dyfrol estron hynod oresgynnol sy'n gallu disodli planhigion cynhenid ac amharu ar systemau draenio a rheoli llifogydd, blocio dyfrffyrdd ac effeithio ar fordwy a gweithgareddau hamdden.

Mae awdurdod amgylcheddol yn cychwyn rhaglen i ddileu dail-ceiniog arnofiol ar lefel dalgyllch, sy'n cynnwys nifer o dirfeddianwyr. Mae'r awdurdod amgylcheddol yn trefnu mynediad ar lefel wirfoddol y tu allan i'r darpariaethau hyn, gyda thirfeddianwyr er mwyn cael gwared ar y rhywogaeth hon. Mae un tirfeddiannwr yn gwrthod mynediad i'r awdurdod amgylcheddol wneud y gwaith hwn ar ei dir, gan adael poblogaeth heb ei thrin o ddail-ceiniog arnofiol a allai ledaenu i ardaloedd cyfagos a pheryglu llwyddiant y rhaglen ddileu.

Gan fod dail-ceiniog arnofiol wedi'i nodi'n rhywogaeth â blaenoriaeth gan y Llywodraeth, a bod ganddi ei Chynllun Gweithredu Rhywogaethau Goresgynnol ei hun, gallai'r awdurdod amgylcheddol ystyried cynnig cytundeb dail-ceiniog arnofiol i'r tirfeddiannwr fel y gellir dileu'r rhywogaeth o'i dir. Er mwyn sicrhau bod modd cwblhau'r rhaglen ddileu ac nad yw ymdrechion tirfeddianwyr eraill yn mynd yn ofer, mae'r awdurdod amgylcheddol yn penderfynu y byddai'n ymateb cymesur fel pe bai'n cynnig cytundeb rheoli rhywogaeth i'r tirfeddianwr dan yr amgylchiadau hyn.

2.4.6 Safle

- 29 Mae'r diffiniad presennol o safle neu "premises" sydd yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn berthnasol i'r darpariaethau hyn. Mae'n dweud bod safle yn cynnwys tir (gan gynnwys adeiladau), strwythurau symudol, cerbydau, cychod neu longau, awyrennau a dulliau cludiant eraill.

2.5 Ystyriaethau lles anifeiliaid

- 30 Mae'n hollbwysig bod yr holl weithgarwch rheoli rhywogaethau'n cael ei wneud yn unol â'r gofynion cyfreithiol ar les anifeiliaid fel y nodwyd yn Neddf Diogelu Anifeiliaid 1911, Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, Deddf (Diogelu) Mamaliaid Gwyllt 1996, Deddf Lles Anifeiliaid 2006 a'r Cytundeb ar Safonau Rhyngwladol ar gyfer Trapio heb Greulondeb. Hefyd, rhaid gwneud pob gwaith yn unol â'r arferion gorau er mwyn osgoi neu leihau poen, trallod neu ddioddefaint i'r anifail.
- 31 Os nad yr awdurdod amgylcheddol sy'n gyfrifol am wneud y gwaith hwn, rhaid iddo gynghori'r perchennog neu'r sawl sy'n gwneud hynny ar y dull mwyaf priodol yn sgil y gofynion hyn.

2.6 Diogelu rhywogaethau di-darged

- 32 Dylai'r awdurdod cynllunio gytuno ar ddulliau sy'n cael gwared ar y rhywogaethau targed, lle bo'n ymarferol, tra'n lleihau effeithiau andwyol ar rywogaethau di-darged a heb amharu fawr ddim ar weithgareddau busnes cyfreithlon.

2.7 Adolygiad o ddarpariaethau rheoli rhywogaethau

- 33 Mae Strategaeth Rhywogaethau Estron Goresgynnol Prydain yn cael ei hadolygu bob pum mlynedd ac yn cynnwys adran ar ddarpariaethau deddfwriaethol. Bydd adolygiad o weithredu'r pwerau hyn yn rhan o'r adolygiad pum mlynedd hwn.

2.8 Cyhoeddi nifer y cytundebau a gorchmynion

- 34 Bydd gwybodaeth am faint o gytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau a wnaed yn cael ei chyhoeddi bob blwyddyn ar wefan Ysgrifenyddiaeth

Rhywogaethau Estron Prydain⁷ ac ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru⁸. Dylai hefyd gwmpasu nifer y cytundebau a'r gorchmynion rheoli rhywogaethau a gwblhawyd yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn, eu diben, faint sy'n dal mewn grym a pha rywogaethau fu'n destun i'r darpariaethau hyn.

⁷ <http://www.nonnativespecies.org/home/index.cfm?>

⁸ <http://www.bioamrywiaethcymru.org.uk/CARTREF>

3 Cytundebau rheoli rhywogaethau

3.1 Beth yw cytundeb rheoli rhywogaethau?

- 35 Cytundeb gwirfoddol rhwng awdurdod amgylcheddol a pherchennog safle yw cytundeb rheoli rhywogaethau, sy'n cyflwyno'r camau sydd angen eu cymryd yn erbyn rhywogaeth estron oresgynnol neu rywogaeth gynhenid a arferai breswyllo yno. Gallai'r perchennog fod yn rhydd-ddeiliad, lesddeiliad neu'n unigolyn sy'n arfer pwerau rheoli dros y tir.
- 36 Does dim cosb am fethu â chydymffurfio â'r cytundeb rheoli rhywogaethau, er y gallai diffyg cydymffurfio arwain at wneud gorchymyn rheoli rhywogaethau.

3.2 Pwy all ymrwymo i gytundeb rheoli rhywogaethau?

- 37 Yma yng Nghymru, Gweinidogion Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdodau amgylcheddol o safbwynt y darpariaethau hyn. Gall y cyrff hyn fynd i gytundeb rheoli rhywogaethau gydag unrhyw berchennog safle.
- 38 Mewn achosion lle mae mwy nag un yn berchen ar safle, rhaid i'r awdurdod amgylcheddol fod yn ddigon bodlon ei fod yn ymrwymo i gytundeb â'r perchennog mwyaf priodol. Er enghraifft, efallai y byddai lesddeiliad yn fwy addas na'r tîrffediannwr os yw'n fwy gweithgar o ran rheoli'r tir.
- 39 Lle byddai unrhyw waith yn effeithio ar annedd preifat e.e. angen mynediad i'r to, yna dim ond Gweinidogion Cymru all lunio cytundeb (ac unrhyw orchymyn dilynol).
- 40 Dylai awdurdodau amgylcheddol hysbysu Gweinidogion Cymru ymlaen llaw cyn cynnig cytundeb rheoli rhywogaethau i berchennog. Er hynny, ni fydd gan Weinidogion Cymru unrhyw rôl yn y broses benderfynu heblaw am gytundebau a wnaed ganddynt.

3.3 Pryd ddylai awdurdod amgylcheddol gynnig ymrwymo i gytundeb rheoli rhywogaethau?

- 41 Os yw'r awdurdod amgylcheddol yn ystyried bod safle'n cynnwys rhywogaeth estron oresgynnol neu rywogaeth gynhenid a arferai breswyllo yno sydd o fewn cwmipas y darpariaethau hyn, a bod dulliau rheoli'r rhywogaethau hynny yn ddigon

o flaenoriaeth ac yn ymarferol, yna rhaid iddo geisio dod i gytundeb anffurfiol â'r perchennog yn gyntaf⁹. Os nad oes modd sicrhau cytundeb, yna gallai'r awdurdod amgylcheddol geisio llunio cytundeb rheoli rhywogaethau gyda'r perchennog (oni bai ei yn sefyllfa frys¹⁰).

42 Lle'r awdurdod amgylcheddol yw penderfynu a yw rheoli'r rhywogaethau yn ddigon o flaenoriaeth ac yn ddigon ymarferol i warantu cynnig cytundeb rheoli rhywogaethau i berchennog.

43 Fodd bynnag, wrth ddod i benderfyniad ynghylch a yw rhywogaeth yn ddigon o flaenoriaeth i warantu cynnig cytundeb, mae Gweinidogion Cymru yn credu bod rhaid i'r awdurdod amgylcheddol ystyried y ffactorau canlynol:

- A yw'r rhywogaeth eisoes yn rhan o raglen ddileu genedlaethol. Dylai rhywogaethau sy'n destun rhaglen ddileu genedlaethol gael eu hystyried yn awtomatig fel rhai â blaenoriaeth ddigonol;
- Tystiolaeth o unrhyw asesiad risg, yn enwedig rhai a gynhaliwyd gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain;
- A yw'r rhywogaeth wedi'i rhestru dan Reoliad Rhywogaethau Estron Goresgynol yr UE¹¹;
- A yw'r rhywogaeth yn eang ei gwasgariad - gweler adran 2.4.5 uchod.

44 Wrth benderfynu a yw hi'n ymarferol rheoli'r rhywogaeth dan sylw, mae Gweinidogion Cymru o'r farn y dylai'r awdurdod amgylcheddol ystyried y canlynol:

- Canlyniadau unrhyw ddadansoddiad rheoli risg o'r rhywogaeth a gynhaliwyd gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain;
- Llwyddiant tebygol gwaith o'r fath;
- Pa mor debygol yw ail oresgyniad;
- Costau unrhyw waith, gan gynnwys unrhyw gostau posib yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â rheolaeth barhaus.

45 Os yw'r awdurdod amgylcheddol o'r farn bod rheoli rhywogaethau yn ymarferol ac yn ddigon o flaenoriaeth fel y dylid cynnig cytundeb rheoli rhywogaethau i berchennog, dylai fod yn ddigon bodlon bod darpariaethau'r cytundeb hwnnw yn ymateb cymesurol i ymdrin â'r mater. Wrth benderfynu ar hyn, mae Gweinidogion

⁹ Gweler adran 2.2

¹⁰ Gweler adran 4.5

¹¹ Gweler Erthygl 4 o Reoliad 1143/2014 yr UE ar Rywogaethau Estron Goresgynol

Cymru yn credu bod angen i'r awdurdod amgylcheddol gadw'r ystyriaethau canlynol mewn cof:

- Lle cynigir dulliau marwol, a allai dulliau eraill (nad ydynt yn farwol) o ddileu'r risgiau a achosir gan y rhywogaeth fod yr un mor effeithiol;
- Yr effeithiau posib ar rywogaethau di-darged;
- Yr effeithiau posib ar weithgareddau busnes cyfreithlon.

3.3.1 Rhywogaethau cynhenid a arferai breswyllo yma

- 46 Mae yna ofynion ychwanegol i'r awdurdod amgylcheddol eu hystyried wrth ystyried cynnig cytundeb rheoli rhywogaethau ar gyfer rhywogaeth gynhenid a arferai breswyllo yma.
- 47 Rhaid i'r awdurdod amgylcheddol ddangos nad yw'r anifeiliaid dan sylw yn bresennol yn y gwyllt yn unol â thelerau'r drwydded gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer eu hailgyflwyno. Nid yw anifeiliaid sy'n destun trwydded yn rhan o gwmpas y darpariaethau hyn.
- 48 Rhaid bod gan yr awdurdod amgylcheddol dystiolaeth sy'n dangos bod yr anifeiliaid yn achosi effaith andwyol ddifrifol ar (i) fioamrywiaeth; (ii) buddiannau amgylcheddol eraill, neu (iii) buddiannau cymdeithasol neu amgylcheddol cyn y gall ymrwymo i gytundeb rheoli rhywogaethau. Mae hwn yn brawf gwahanol a llymach na'r un a roir i rywogaethau estron goresgynnol, sydd dim ond yn gofyn i awdurdod amgylcheddol benderfynu bod rhywogaeth "yn debygol o gael effaith andwyol ddifrifol".
- 49 Hefyd, rhaid i'r awdurdod amgylcheddol fod yn ddigon bodlon nad oes ffordd briodol arall o osgoi sgileffeithiau'r rhywogaeth honno. Mae angen i'r awdurdod amgylcheddol ystyried yr holl atebion posib eraill i fynd i'r afael â'r effeithiau andwyol a achoswyd gan y rhywogaethau a dim ond cynnig cytundeb rheoli rhywogaethau lle diystyriwyd y rhain yn wrthrychol. Dylai'r awdurdod amgylcheddol benderfynu ar yr amrywiaeth a'r math o atebion amgen posib i'w hystyried, a phenderfynu beth sy'n ymarferol ym mhob achos. Efallai y bydd yn ymgynghori ag arbenigwyr eraill ar atebion posib, lle bo'r angen.
- 50 Wrth ystyried atebion amgen, dylid eu cyfyngu i rai sy'n bosib yn ariannol ac yn dechnegol. Ni ddylid diystyru dull amgen dim ond oherwydd y byddai'n ddrutach neu'n fwy anghyfleus. Er hynny, byddai pwynt yn codi lle byddai'n dull amgen mor ddrud neu'n dechnegol anodd nes y byddai'n afresymol ei ystyried yn ateb ymarferol. Yr awdurdod amgylcheddol sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad hwn yn ôl manylion pob achos.

3.4 Beth mae'n rhaid i gytundeb rheoli rhywogaethau ei gynnwys

51 Rhaid i gytundeb rheoli rhywogaethau nodi'r canlynol yn glir:

- Y gweithrediadau rheoli rhywogaethau sy'n ofynnol i'w cyflawni;
- Pwy sy'n gyfrifol am wneud hyn – ai'r perchennog, yr awdurdod amgylcheddol, neu'r ddau;
- Erbyn pryd y dylid cyflawni'r gwaith hyn.

52 Gall cytundeb rheoli rhywogaethau hefyd gynnwys gwybodaeth ategol sy'n briodol yn ôl y partïon, er enghraifft:

- Sut dylid cyflawni'r gwaith – gallai gynnwys gwybodaeth ar ystyriaethau lles yr anifail o bosib;
- Unrhyw daliadau i'w gwneud gan y naill barti i'r llall, neu i unigolyn arall, mewn perthynas â'r gwaith i'w wneud;
- Unrhyw waith na ddylid ei gynnal - er enghraifft, gwahardd torri rhywogaeth o blanhigyn estron goresgynnol yn ystod cyfnod penodol.

3.5 Terfynu cytundeb

53 Daw'r cytundeb i ben i bob pwrpas unwaith y bydd y perchennog wedi cydymffurfio â'i holl ofynion. Er eglurder, rhaid i awdurdod amgylcheddol roi cadarnhad o hyd i'r perchennog ar ffurf hysbysiad o gydymffurfio. Dylai'r awdurdod amgylcheddol gyflwyno'r hysbysiad cydymffurfio hwn i'r perchennog cyn pen 21 diwrnod wedi iddo ystyried bod y cytundeb wedi dod i ben.

54 Gall perchennog ofyn i awdurdod amgylcheddol gyflwyno hysbysiad cydymffurfio os yw'n credu ei fod wedi cydymffurfio â holl ofynion y cytundeb, ond nad yw'r awdurdod amgylcheddol wedi cyflwyno hysbysiad cydymffurfio iddo. Dylai'r awdurdod amgylcheddol ystyried y cais hwn ac ymateb i'r perchennog cyn pen 21 diwrnod i dderbyn y cais yn y lle cyntaf.

55 Dylai'r awdurdod amgylcheddol naill ai:

- a. Gyflwyno'r hysbysiad; neu
- b. Wrthod cyflwyno'r hysbysiad, gan nodi bod angen cwblhau'r gwaith o hyd fel rhan o'r cytundeb gwreiddiol.

4 Gorchmynion Rheoli Rhywogaethau

4.1 Pan fydd awdurdod amgylcheddol yn gwneud gorchymyn rheoli rhywogaethau

56 Mae Adran 14(4A) ac Atodlen 9A i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn rhoi grym i awdurdod amgylcheddol wneud gorchymyn rheoli rhywogaethau mewn perthynas â rhywogaethau estron goresgynnol neu rywogaethau cynhenid a arferai breswyllo yma, dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

- Os oes 42 diwrnod wedi mynd heibio ers i'r awdurdod amgylcheddol wneud cynnig ysgrifenedig i'r perchennog ymuno â'r cytundeb rheoli rhywogaethau, ond na aethpwyd i gytundeb, a bod yr awdurdod amgylcheddol yn credu ei bod hi'n annhebygol y bydd y perchennog yn ymrwymo i unrhyw gytundeb o'r fath.
- Lle mae'r perchennog wedi gwrthod ymrwymo i unrhyw gytundeb rheoli rhywogaethau. Dylai'r awdurdod amgylcheddol gael cadarnhad ysgrifenedig o hyn gan y perchennog;
- Lle mae'r perchennog wedi methu â chydymffurfio â'r cytundeb rheoli rhywogaethau ac, ar ôl cael cyfle rhesymol i unioni'r mater, heb wneud hynny;
- Lle mae'r awdurdod amgylcheddol wedi methu â nodi'r perchennog, ac felly nad yw'n gallu cwblhau cytundeb rheoli rhywogaethau;
- Lle mae'r awdurdod amgylcheddol yn ystyried bod angen gwneud gorchymyn rheoli rhywogaethau ar fyrder er mwyn gweinyddu'r broses gytundeb.

57 Wrth ystyried a yw am wneud gorchymyn rheoli rhywogaethau, gall awdurdod amgylcheddol ond bwrw ymlaen â hynny ar ôl penderfynu bod y darpariaethau sydd yn y gorchymyn yn ffordd gymesur o fynd i'r afael â'r mater. Mae'r ffactorau y dylai'r awdurdod amgylcheddol eu hystyried yr un fath â'r rhai ar gyfer cytundebau rheoli rhywogaethau yn adran 3.3. uchod.

58 Mae angen bodloni profion ychwanegol yn ymwneud â rhywogaethau cynhenid a arferai breswyllo yma, cyn y gall awdurdod amgylcheddol fynd ymlaen i wneud gorchymyn rheoli rhywogaethau. Dyma'r profion sy'n berthnasol cyn y gellir cynnig cytundeb rheoli rhywogaethau hefyd, ac sydd wedi'u cyflwyno yn adran 3.3 uchod.

59 Dylai awdurdodau amgylcheddol roi gwybod ymlaen llaw i Weinidogion Cymru cyn gwneud gorchymyn rheoli rhywogaethau. Fodd bynnag, does gan Weinidogion

Cymru ddim rôl yn y broses benderfynu o gwbl, ac eithrio mewn perthynas â'r gorchmynion a wnaed ganddynt.

4.1.1 Dim perchennog hysbys

60 Os yw'r awdurdod amgylcheddol yn methu dod o hyd i'r perchennog, rhaid iddo adael hysbysiad amlwg ar y safle yn datgan ei ddymuniad i ymrwymo i gytundeb rheoli rhywogaethau, a disgwyl pum diwrnod o leiaf cyn gwneud gorchymyn os na ddaw neb ymlaen wedyn. Yn yr achosion hyn, rhaid i'r awdurdod amgylcheddol wneud pob ymdrech resymol i ddod o hyd i'r perchennog cyn cyflwyno hysbysiad. Gallai gynnal chwiliad gyda'r Gofrestrfa Tir.

4.2 Beth ddylai gorchymyn rheoli rhywogaethau gynnwys

61 Rhaid i orchymyn rheoli rhywogaethau:

- Nodi pwy sy'n gyfrifol am gyflawni gwaith rheoli rhywogaethau;
- Nodi at ba rywogaeth y mae'r gorchymyn yn cyfeirio ati;
- Nodi'r gwaith i'w gyflawni;
- Nodi erbyn pryd y dylai'r gwaith ei gyflwyno, neu y bwriedir ei gyflawni, gan yr awdurdod amgylcheddol;
- Os yw'n briodol, cynnwys map o'r safle y mae'r gorchymyn yn cyfeirio ato.

62 Gall gorchymyn rheoli rhywogaethau gynnwys gwybodaeth ychwanegol gan gynnwys:

- Sut y cynhelir y gwaith;
- Unrhyw daliadau gan yr awdurdod amgylcheddol i'r perchennog neu unigolyn arall am gostau rhesymol y gwaith;
- Unrhyw daliadau y mae'n rhaid i'r perchennog eu gwneud i'r awdurdod amgylcheddol am gostau rhesymol y gwaith;
- Unrhyw waith na ddylai'r perchennog ei hun ei wneud;
- Unrhyw unigolion sy'n cyflawni gwaith ar ran yr awdurdod amgylcheddol.

4.3 Gofynion hysbysu

- 63 Rhaid i awdurdod amgylcheddol gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig o'i fwriad i gyflwyno gorchymyn lle bo modd, i unrhyw berchennog safle y mae'n ymwybodol ohono, nid dim ond y perchennog sy'n destun gofynion y gorchymyn. Mae hyn oherwydd bod gan unrhyw berchennog eiddo yr hawl i apelio yn erbyn y gorchymyn. Rhaid i'r awdurdod amgylcheddol wneud ymdrechion rhesymol i nodi holl berchnogion hysbys y safle, gan gynnwys defnyddio chwiliadau'r Gofrestrfa Tir.
- 64 Rhaid rhoi gwybod i Weinidogion Cymru hefyd (oni bai mai nhw yw'r awdurdod amgylcheddol sy'n gwneud y gorchymyn).

4.4 Pan ddaw'r gorchymyn i rym

- 65 Ni chaiff gorchymyn rheoli rhywogaethau fynnu bod perchennog yn cynnal gwaith rheoli rhywogaethau neu'n caniatáu i'r awdurdod amgylcheddol wneud hynny cyn diwedd y terfyn amser perthnasol¹² ar gyfer apelio, oni bai y gwneir hynny dan ddarpariaeth frys (gweler 4.5 isod).
- 66 Os bydd apêl yn erbyn gorchymyn yn cael ei wneud erbyn dyddiad terfyn y Tribiwnlys Haen Gyntaf, ni fydd yn ofynnol i'r perchennog wneud gwaith rheoli rhywogaethau, ac ni ddylai'r awdurdod amgylcheddol wneud hynny chwaith, hyd nes bod y Tribiwnlys Haen Gyntaf wedi dod i benderfyniad ynglŷn â'r apêl neu fod y perchennog wedi tynnu'i apêl yn ôl.

4.5 Gorchmynion rheoli rhywogaethau brys

- 67 Yn y mwyafrif o achosion, dylai'r awdurdod amgylcheddol ddilyn y gweithdrefnau ar gyfer gwneud gorchymyn rheoli rhywogaethau yn y ffordd arferol a nodir uchod. Fodd bynnag, gall amgylchiadau eithriadol achosi i awdurdod amgylcheddol wneud "gorchymyn rheoli rhywogaethau brys" dan ddarpariaethau paragraff 10(2)(c) o Atodlen 9A i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.
- 68 Os yw awdurdod amgylcheddol yn poeni y byddai unrhyw oedi cyn cyflawni gwaith rheoli rhywogaethau yn debygol o beryglu ei amcanion yn ymwneud â'r rhywogaeth honno, yna fe allai wneud "gorchymyn rheoli rhywogaethau brys".

¹² Mae terfynau amser ar gyfer apelïadau wedi'u llywio gan Reolau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf; sef 28 diwrnod yn achos apelïadau'r Gorchymyn Rheoli Rhywogaethau ar hyn o bryd. Am fwy o wybodaeth am sut a phryd y dylid cyflwyno apêl, gweler Rheol 22 o Reolau Gweithdrefn y Tribiwnlysoedd (Tribiwnlys yr Haen Gyntaf) (Y Siambr Reoleiddio Gyffredinol) (2009/1976), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2014/2128.

- 69 Rhaid i'r awdurdod amgylcheddol benderfynu'n gyntaf a yw rheoli'r rhywogaeth yn ymarferol ac yn ddigon o flaenoriaeth i gyfiawnhau gwneud "gorchymyn rheoli rhywogaethau brys"¹² gan ystyried yr un ffactorau â'r rhai sy'n ymwneud â chytundebau rheoli rhywogaethau yn adran 3.3 uchod.
- 70 Wrth benderfynu p'un ai gwneud "gorchymyn rheoli rhywogaethau brys", dylai'r awdurdod amgylcheddol hefyd gofio am yr egwyddor 'er budd gor-redol y cyhoedd', h.y. ni ddylai wneud "gorchymyn rheoli rhywogaethau brys" oni bai ei fod yn fodlon bod hynny'n amlwg er budd y cyhoedd a bod budd y cyhoedd yn bwysicach na buddiannau preifat y perchennog sy'n destun y gorchymyn. Ar ben hynny, os yw'r rhywogaeth dan sylw'n rhywogaeth o Ddiddordeb i'r Gymuned, yna bydd gofynion y Gyfarwydddeb Cynefinoedd yn dal yn berthnasol.
- 71 Rhaid i'r awdurdod amgylcheddol hefyd ddefnyddio'r prawf bod darpariaethau'r gorchymyn yn cyfateb i'r amcanion i'w cyflawni – gweler adran 3.3 uchod.
- 72 Gall "gorchymyn rheoli rhywogaethau brys" ddod i rym ar unwaith, er y gallai unrhyw berchennog apelio yn ei erbyn o hyd ac, dan yr amgylchiadau hynny, mae gan Dribiwnlys Haen Gyntaf y pŵer i atal y gorchymyn.

Mae'r awdurdod amgylcheddol yn derbyn adroddiad credadwy am nyth gacwn Asiaidd ar dir perchennog. Mae'r awdurdod amgylcheddol yn fodlon, ar sail asesiad risg gan Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain, bod y rhywogaeth yn debygol o gael effaith andwyol iawn ar fioamrywiaeth a buddiannau cymdeithasol ac economaidd. Mae hefyd yn fodlon bod gan y rhywogaeth ddigon o flaenoriaeth i warantu camau gweithredu gan fod rhaglen ddileu genedlaethol ar waith ar ei chyfer, a bod dileu yn opsiwn ymarferol.

O gofio bod y gacynen Asiaidd yn rhywogaeth estron oresgynnol hynod symudol, mae'r awdurdod amgylcheddol yn penderfynu bod angen ei dileu ar unwaith oherwydd gallai ymsefydlu a lledaenu'n gyflym. Mae'r perchennog yn gwrthod caniatáu i'r awdurdod amgylcheddol gael mynediad i'w dir er mwyn cadarnhau presenoldeb y rhywogaeth hon. Mae'r awdurdod amgylcheddol o'r farn bod y perygl mor fawr nes na all ddisgwyl i'r broses gytundeb gael ei chwblhau. Mae'n penderfynu bod rhesymau er budd gor-redol y cyhoedd dros wneud gorchymyn rheoli rhywogaethau dan y darpariaethau brys. Mae'n penderfynu bod manylion y gwaith sy'n rhan o'r gorchymyn – craffu ac yna dileu os cadarnheir achos o'r rhywogaeth – yn gymesur.

4.6 Dirymu

- 73 Gall awdurdod amgylcheddol ddirymu gorchymyn rheoli rhywogaethau unrhyw bryd. Efallai y bydd angen dirymu gorchymyn os yw'r awdurdod amgylcheddol yn penderfynu nad yw'r gorchymyn yn addas i'r diben mwyach, ac yn dymuno ei ddisodli. Yn yr amgylchiadau hyn, byddai'r awdurdod amgylcheddol yn gorfod dirymu'r gorchymyn a dechrau o'r newydd eto.

4.7 Terfynu gorchymyn

- 74 Daw'r gorchymyn i ben i bob pwrpas unwaith y bydd y perchennog wedi cydymffurfio â'i holl ofynion. Er eglurder, rhaid i awdurdod amgylcheddol roi cadarnhad o hyd i'r perchennog ar ffurf hysbysiad cydymffurfio. Dylai'r awdurdod amgylcheddol gyflwyno'r hysbysiad hwn i'r perchennog cyn pen 21 diwrnod wedi iddo ystyried bod y cytundeb wedi dod i ben
- 75 Gall perchennog ofyn i'r awdurdod amgylcheddol gyflwyno hysbysiad cydymffurfio os yw'n credu ei fod wedi cydymffurfio â holl ofynion y gorchymyn, ond nad yw'r awdurdod amgylcheddol wedi cyflwyno hysbysiad cydymffurfio iddo. Dylai'r awdurdod amgylcheddol ystyried y cais hwn ac ymateb i'r perchennog cyn pen 21 diwrnod i dderbyn cais yn y lle cyntaf.
- 76 Dylai'r awdurdod amgylcheddol naill ai:
- Gyflwyno'r hysbysiad; neu
 - Wrthod cyflwyno'r hysbysiad, gan nodi bod angen cwblhau'r gwaith o hyd fel rhan o'r cytundeb gwreiddiol.

5 Pwerau mynediad, gorfodi, troseddau a chosbau

5.1 Pwerau Mynediad

77 Gall awdurdod amgylcheddol awdurdodi'r defnydd o bwerau mynediad i:

- benderfynu a ddylid cynnig cytundeb rheoli rhywogaethau, pan fo ganddo achos rhesymol i amau presenoldeb rhywogaeth estron oresgynnol neu rywogaeth estron a arferai breswyllo yma.
- penderfynu a ddylid cyflwyno neu ddirymu gorchymyn rheoli rhywogaethau, pan fo ganddo achos rhesymol i amau presenoldeb rhywogaeth estron oresgynnol neu anifeiliaid sydd wedi'u hailgyflwyno'n ddirwydded;
- ymchwilio i achos tybiedig o ddiffyg cydymffurfio â chytundeb neu orchymyn rheoli rhywogaethau;
- cynnal gwaith rheoli rhywogaethau o dan orchymyn rheoli rhywogaethau;
- gosod hysbysiad ar y safle pan nad oedd yn gallu hysbysu'r perchennog;
- cynnal y gweithrediadau neu'r gwaith ei hun (neu gan bobl sy'n cyflawni'r gweithrediadau neu waith ar ran yr awdurdod amgylcheddol) yn dilyn torri gorchymyn rheoli rhywogaethau.

78 Mae'n bosibl gweithredu'r hawliau mynediad hyn ar unrhyw amser rhesymol. Bydd angen gwarant gan ynad heddwch i weithredu pwerau mynediad o dan rai amgylchiadau. Dyma'r amgylchiadau:

- a. pan fo'r safle yn annedd;
- b. pan fo'r perchennog wedi gwrthod mynediad i'r safle neu y gellir rhagdybio'n rhesymol y bydd yn gwneud hynny;
- c. pan fo'r safle'n wag;
- d. pan fo'r perchennog yn absennol dros dro;

- e. pan fyddai rhoi hysbysiad yn mynd yn groes i'r pwrpas o gael mynediad e.e. pan fo gan awdurdod amgylcheddol reswm i gredu y gallai'r perchennog waredu'r rhywogaeth mewn modd amhriodol;
- f. pan fo angen mynediad mewn perthynas â gorchymyn rheoli rhywogaethau brys;
- g. pan na fu modd dod o hyd i berchennog;
- h. pa fo angen cael mynediad i osod hysbysiad pan na fu modd dod o hyd i berchennog;
- i. pan fo angen cael mynediad i gynnal gwaith ar frys pan fo'r awdurdod amgylcheddol yn ystyried bod y perchennog wedi torri gorchymyn.

79 Yn amgylchiadau (a)-(d) uchod, efallai na fydd ynad heddwch yn rhoi gwarant oni bai ei fod yn fodlon bod pob perchennog hysbys wedi cael o leiaf 48 awr o rybudd o fynediad arfaethedig. Pan na ellir dod o hyd i berchennog, ni all yr ynad heddwch roi gwarant oni bai ei fod yn fodlon bod yr awdurdod amgylcheddol wedi gosod hysbysiad o'r gorchymyn yn glir ar y safle.

80 Gall person sydd wedi'i awdurdodi gan awdurdod amgylcheddol i weithredu pŵer mynediad fynd â phobl eraill i'r safle yn ôl yr angen; mynd ag unrhyw gyfarpar, peiriannau neu ddeunyddiau i'r safle; a chymryd samplau o unrhyw beth sydd yn neu ar y safle. Fodd bynnag, dylai'r awdurdod amgylcheddol weithredu'r pwerau hyn yn bwyllog a tharfu cyn lleied â phosibl ar y perchennog.

5.2 Gorfodi

81 Gall awdurdod amgylcheddol gymryd camau gweithredu os yw'n ystyried nad yw'r perchennog a ddylai gyflawni'r gwaith yn ôl gorchymyn rheoli rhywogaethau wedi gwneud hynny erbyn y dyddiad neu yn y ffordd a nodwyd yn y gorchymyn. O dan yr amgylchiadau hyn, gall gyflawni'r gwaith, neu waith pellach sydd ei angen i sicrhau bod y dasg yn cael ei chyflawni yn y ffordd a nodwyd gan y gorchymyn; a thalu unrhyw dreuliau rhesymol i'r perchennog, llai unrhyw daliad y byddai'n rhaid iddo fod wedi'i wneud i'r perchennog i gyflawni'r gwaith.

82 Fodd bynnag, cyn i awdurdod amgylcheddol gymryd camau gweithredu fel hyn mae'n rhaid iddo hysbysu'r perchennog, gan nodi'n ysgrifenedig pam ei fod yn credu bod y gorchymyn wedi'i dorri a rhoi wythnos i'r perchennog i wneud y gwaith. Dylai'r awdurdod amgylcheddol ystyried ymestyn y cyfnod hwn pan mae yna sail resymol dros wneud hynny e.e. tywydd gwael yn atal y gwaith.

5.3 Troseddau a chosbau

83 Mae paragraff 19 o Atodlen 9A yn ei gwneud hi'n drosedd i berson:

- Fethu â chydymffurfio â gofyniad a roddwyd arno gan orchymyn rheoli rhywogaethau, heb esgus rhesymol;
- Mynd ati'n fwriadol i rwystro person rhag cyflawni gwaith sy'n ofynnol neu'n arfaethedig o dan orchymyn rheoli rhywogaethau.

84 Mae person sy'n euog o'r naill drosedd neu'r llall yn atebol ar gollfarn ddiannod i gael ei garcharu am gyfnod nad yw'n fwy na 51 wythnos, neu i gael ei ddirwyo, neu'r ddau. Pan gyflawnir trosedd cyn i adran 281(5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ddod i rym ni ellir carcharu am fwy na 6 mis.

6 Cyfrifoldeb am gostau ac iawndal

6.1 Cyfrifoldeb am gostau gwaith rheoli rhywogaethau

85 Yn y mwyafrif llethol o achosion nid perchennog y safle fydd wedi bod yn gyfrifol am gyflwyno'r rhywogaethau a ganfuwyd ar ei safle. Yr awdurdod amgylcheddol fydd yn talu costau'r holl waith o dan yr holl amgylchiadau hynny.

Mae'r awdurdod amgylcheddol yn creu cytundeb rheoli rhywogaethau gyda pherchennog i gael gwared ar baracitiaid sy'n nythu yn ei ardd. Nid y perchennog oedd yn gyfrifol o gwbl am ryddhau'r adar i'r gwyllt yn y lle cyntaf. O dan yr amgylchiadu hyn bydd yr awdurdod amgylcheddol yn talu holl gostau'r gwaith.

86 Fodd bynnag, pan fo'r tirfeddiannwr yn uniongyrchol gyfrifol am gyflwyno'r rhywogaeth ar ei safle, sy'n drosedd o dan adran 14 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, bydd y tirfeddiannwr yn atebol am gostau'r gwaith. Bydd gan dirfeddiannwr hawl i apelio yn erbyn unrhyw atebolrwydd am gostau mewn Tribiwnlys Haen Gyntaf.

Mae'r awdurdod amgylcheddol yn ymwybodol bod llygod y paith yn dianc yn aml i'r gwyllt o barc bywyd gwyllt gan nad ydynt yn cael eu cadw'n briodol. Mae'r awdurdod amgylcheddol yn creu cytundeb rheoli rhywogaethau gyda'r parc bywyd gwyllt gan nodi gofyniad i wella ffensys. Y parc bywyd gwyllt sy'n gyfrifol am gost y ffensio gan mai ef sy'n gyfrifol am yr anifeiliaid yn dianc i'r gwyllt.

6.2 Iawndal

87 Mae paragraff 25 o Atodlen 9A yn darparu pŵer dewisol i Weinidogion Cymru wneud trefniadau i roi iawndal i berchennog am golled ariannol sy'n deillio o gytundeb neu orchymyn rheoli rhywogaethau; neu o weithredu pwerau mynediad. Er mwyn atal hawliadau gwerth isel iawn a'r costau anghymesur sy'n gysylltiedig â gweinyddu hawliadau o'r fath, mae paragraff 25 o Atodlen 9A hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu isafswm ar gyfer ystyried hawliadau. Dylid cyflwyno pob hawliad yn ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

- 88 Bydd y rhan fwyaf o rywogaethau sy'n destun gwaith rheoli yn wyllt ac, felly, ni fyddant yn eiddo i unrhyw berchennog. Pan fyddant yn eiddo i berchennog (e.e. anifail sydd wedi dianc o sw neu barc bywyd gwyllt), gallai eu presenoldeb yn y gwyllt fod yn drosedd o dan adran 14 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, sy'n rheoleiddio rhyddhau rhywogaethau i'r gwyllt. O dan yr amgylchiadau hyn, nid oes disgwyl y byddai iawndal yn cael ei dalu am golli unrhyw rywogaethau.
- 89 Dylid talu iawndal pan fydd gwaith a gynhelir o dan gytundeb neu orchymyn rheoli rhywogaethau yn difrodi eiddo pan nad oedd presenoldeb y rhywogaethau yn fai ar y perchennog neu'r meddiannydd.

6.3 Anghydfod

- 90 Pan fo anghydfod yn codi rhwng awdurdod amgylcheddol a pherchennog nad yw'n rhan o'r broses apelio statudol, dylai'r awdurdod amgylcheddol geisio mynd i'r afael â'r mater drwy ei weithdrefnau datrys anghydfod arferol.

7 Hawl i apelio

91 Mae gan unrhyw berchennog safle hawl i apelio yn erbyn gorchymyn rheoli rhywogaethau neu unrhyw ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys ynddo, nid dim ond y perchennog y bydd y gofynion yn berthnasol iddo. Mae'n rhaid cyflwyno apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o fewn yr amserlen a bennwyd gan ei reolau statudol, sef 28 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r gorchymyn ar hyn o bryd.

92 Gall y Tribiwnlys Haen Gyntaf:

- gadarnhau'r gorchymyn;
- gyfarwyddo'r awdurdod amgylcheddol i ddirymu neu ddiwygio'r gorchymyn;
- yn achos gorchymyn rheoli rhywogaethau brys, atal y gorchymyn; neu
- wneud gorchymyn arall yn ôl yr hyn sy'n briodol ym marn y Tribiwnlys.

ATODLEN – Atodlen 9 i Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981

Anifeiliaid a phlanhigion y mae adran 14 yn berthnasol iddynt

Rhan I – Rhywogaethau estron

Enw cyffredin

Bass, Large mouthed Black
Bass, Rock
Bitterling
Crab, Chinese Mitten
Crayfish, Noble
Crayfish, Red Swamp
Crayfish, Signal
Crayfish, Spiny-cheek
Crayfish, Turkish
Deer, Chinese Water
Deer, Muntjac
Deer, Sika
Deer, any hybrid of Sika

Dormouse, Fat
Duck, Carolina Wood
Duck, Mandarin
Duck, Ruddy
Flatworm
Flatworm
Flatworm, Australian
Flatworm, New Zealand
Frog, Edible
Frog, European Tree (or Common Tree Frog)
Frog, Marsh
Goose, Bar-headed
Goose, Barnacle
Goose, Canada
Goose, Egyptian
Goose, Emperor
Goose, Snow
Heron, Night
Limpet, Slipper
Lizard, Common Wall
Marmot, Prairie (or Prairie dog)
Mink, American

Enw gwyddonol

Micropterus salmoides
Ambloplites rupestris
Rhodeus sericeus
Eriocheir sinensis
Astacus astacus
Procambarus clarkii
Pacifastacus leniusculus
Orconectes limosus
Astacus leptodactylus
Hydropotes inermis
Muntiacus reevesi
Cervus nippon
Any hybrid of *Cervus nippon*,
Cervus and any hybrid of the genus
Cervus
Glis glis
Aix sponsa
Aix galericulata
Oxyura jamaicensis
Kontikia andersoni
Kontikia ventrolineata
Australoplane sanguinea
Artiposthia triangulata
Rana esculenta
Hyla arborea

Rana ridibunda
Anser indicus
Branta leucopsis
Branta canadensis
Alopochen aegyptiacus
Anser canagicus
Anser caerulescens
Nycticorax nycticorax
Crepidula fornicata
Podarcis muralis
Cynomys
Mustela vison

Newt, Alpine	<i>Triturus alpestris</i>
Newt, Italian Crested	<i>Triturus carnifex</i>
Owl, Eagle	<i>Bubo bubo</i>
Oyster Drill, American	<i>Urosalpinx cinerea</i>
Parakeet, Monk	<i>Myiopsitta monachus</i>
Parakeet, Ring-necked	<i>Psittacula krameri</i>
Partridge, Chukar	<i>Alectoris chukar</i>
Partridge, Rock	<i>Alectoris graeca</i>
Pheasant, Golden	<i>Chrysolophus pictus</i>
Pheasant, Lady Amherst's	<i>Chrysolophus amherstiae</i>
Pheasant, Reeves'	<i>Syrmaticus reevesii</i>
Pheasant, Silver	<i>Lophura nycthemera</i>
Pochard, Red-crested	<i>Netta rufina</i>
Pumpkinseed (or Sun-fish or Pond-perch)	<i>Lepomis gibbosus</i>
Rat, Black	<i>Rattus rattus</i>
Shelduck, Ruddy	<i>Tadorna ferruginea</i>
Snake, Aesculapian	<i>Elaphe longissima</i>
Squirrel, Grey	<i>Sciurus carolinensis</i>
Swan, Black	<i>Cygnus atratus</i>
Terrapin, European Pond	<i>Emys orbicularis</i>
Toad, African Clawed	<i>Xenopus laevis</i>
Toad, Midwife	<i>Alytes obstetricans</i>
Toad, Yellow-bellied	<i>Bombina variegata</i>
Wallaby, Red-necked	<i>Macropus rufogriseus</i>
Wels (or European catfish)	<i>Silurus glanis</i>
Zander	<i>Stizostedion lucioperca</i>

Rhan 1A – Anifeiliaid cynhenid

Rhywogaethau cynhenid

Enw cyffredin

Capercaillie
Chough
Crane, Common
Corncrake
Eagle, White-tailed
Goshawk
Kite, Red
Owl, Barn

Enw gwyddonol

Tetrao urogallus
Pyrrhocorax pyrrhocorax
Grus grus
Crex crex
Haliaetus albicilla
Accipiter gentilis
Milvus milvus
Tyto alba

Rhan 1B – Anifeiliaid nad ydynt yn bresennol fel arfer mwyach

Rhywogaethau cynhenid a arferai breswyllo yno

Enw cyffredin

Beaver, Eurasian
Boar, Wild

Enw gwyddonol

Castor fiber
Sus scrofa

Rhan 2

Planhigion – Rhywogaethau estron

Enw cyffredin

Alexanders, Perfoliate
Algae, Red
Archangel, Variegated Yellow

Azalea, Yellow
Balsam, Himalayan
Cotoneaster
Cotoneaster, Entire-leaved
Cotoneaster, Himalayan
Cotoneaster, Hollyberry
Cotoneaster, Small-leaved
Creeper, False Virginia
Creeper, Virginia
Dewplant, Purple
Fanwort (or Carolina Water-Shield)
Fern, Water
Fig, Hottentot
Garlic, Three-cornered
Hogweed, Giant
Hyacinth, Water
Kelp, Giant
Kelp, Giant
Kelp, Giant
Kelp, Giant
Kelp, Japanese
Knotweed, Giant
Knotweed, Hybrid

Knotweed, Japanese
Leek, Few-flowered
Lettuce, water

Enw gwyddonol

Smyrnium perfoliatum
Grateloupia luxurians
Lamiastrum galeobdolon subsp.
argentatum
Rhododendron luteum
Impatiens glandulifera
Cotoneaster horizontalis
Cotoneaster integrifolius
Cotoneaster simonsii
Cotoneaster bullatus
Cotoneaster microphyllus
Parthenocissus inserta
Parthenocissus quinquefolia
Disphyma crassifolium
Cabomba caroliniana
Azolla filiculoides
Carpobrotus edulis
Allium triquetrum
Heracleum mantegazzianum
Eichhornia crassipes
Macrocystis angustifolia
Macrocystis integrifolia
Macrocystis laevis
Macrocystis pyrifera
Laminaria japonica
Fallopia sachalinensis
Fallopia japonica x *Fallopia*
sachalinensis
Fallopia japonica
Allium paradoxum
Pistia stratiotes

